



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1647 (Cy.128)

2005 No. 1647 (W.128)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Deunyddiau ac
Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd
(Cymru) 2005**

**The Materials and Articles in
Contact with Food (Wales)
Regulations 2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd 1987 (O.S. 1987/1523, fel y'i diwygiwyd) ("Rheoliadau 1987") i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, ac yn ailddeddfu neu'n ailddeddfu gyda diwygiadau ddarpariaethau penodol a geir yn y Rheoliadau hynny. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1935/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac yn diddymu Cyfarwyddebau 80/590/EEC a 89/109/EEC ("Rheoliad 1935/2004").

1. These Regulations revoke the Materials and Articles in Contact with Food Regulations 1987 (S.I. 1987/1523, as amended) ("the 1987 Regulations") in so far as they apply in relation to Wales, and re-enact or re-enact with amendments certain provisions contained in those Regulations. These Regulations also provide for the enforcement of Regulation (EC) No. 1935/2004 of the European Parliament and of the Council on materials and articles intended to come into contact with food and repealing Directives 80/590/EEC and 89/109/EEC ("Regulation 1935/2004").

2. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddeunyddiau neu eitemau y tu allan i gwmpas Rheoliad 1935/2004 (rheoliad 3). Y deunyddiau a ddynodir yn y Rheoliad hwnnw fel rhai sydd y tu allan i'w gwmpas yw deunyddiau ac eitemau a gyflenwir fel hynafolion, deunyddiau sy'n orchudd neu'n gaenen ac sy'n ffurfio rhan o'r bwyd ac y gellir eu bwyta gyda'r bwyd, a chyfarpar sefydlog cyhoeddus neu breifat i gyflenwi dŵr.

2. These Regulations do not apply to materials or articles outside the scope of Regulation 1935/2004 (regulation 3). The materials identified in that Regulation as being outside its scope are materials and articles supplied as antiques, covering or coating materials forming part of the food and which may be consumed with it, and fixed public or private water supply equipment.

3. Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliad 1935/2004, (rheoliad 4). Mae Rheoliad 1935/2004 yn Rheoliad fframwaith ar ddeunyddiau ac eitemau mewn cysylltiad â bwyd, ac mae'n disodli Cyfarwyddebau 80/590/EEC ac 89/109/EEC, a weithredwyd gan Rheoliadau 1987. Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu ar gyfer dynodi'r awdurdodau cymwys at yr amrywiol ddibenion a ddynodir yn Rheoliad 1935/2004 (rheoliad 5).

3. Part 2 of these Regulations contains provision for the enforcement of Regulation 1935/2004, (regulation 4). Regulation 1935/2004 is a framework Regulation on materials and articles in contact with food, and replaces Directives 80/590/EEC and 89/109/EEC, which were implemented by the 1987 Regulations. This Part also provides for designation of the competent authorities for the various purposes identified in Regulation 1935/2004 (regulation 5).

4. Mae Rhan 3 yn cynnwys rheoliadau sy'n ailddeddfu, heb ddiwygio'n sylweddol, ddarpariaethau Rheoliadau 1987 sy'n ymwneud â finyl clorid (rheoliadau 6 & 7).

5. Mae Rhan 4 yn cynnwys rheoliadau sy'n ailddeddfu darpariaethau Rheoliadau 1987 sy'n ymwneud â ffilm seliwlos a adfywiwyd ("RCF"), fel y'i diwygiwyd yn ôl yr angen i weithredu gofynion Cyfarwyddeb y Comisiwn 2004/14/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb 93/10/EC (rheoliadau 8 & 9).

6. Yn benodol mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn -

- (a) yn rheoli pa sylweddau y ceir eu defnyddio wrth weithgynhyrchu RCF, a all amrywio yn ôl a chafodd gaenen o blastigau ai peidio (paragraff (3));
- (b) yn rheoleiddio pa sylweddau y ceir eu defnyddio i weithgynhyrchu caennau plastig ar gyfer RCF, ac o dan ba amodau (paragraff (4));
- (c) yn creu rhanddirymiad amodol o baragraff (3) o ran sylweddau y ceir eu defnyddio fel lliwyddion neu ludyddion wrth weithgynhyrchu RCF heb gaenen blastig (paragraff (5));
- (ch) yn creu tramgwyddau o ran gwerthu, mewnfurio neu ddefnydd busnes o RCF nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau (paragraffau (6) & (7)); a
- (d) yn creu gofyniad amodol bod datganiad o gydymffurfedd deddfwriaethol gyda'r RCF pan gaiff ei marchnata cyn y cyfnod adwerthu (paragraff (8)).

7. Mae rheoliad 9 yn cymhwyso i RCF â chaenen blastig y rheolaethau sy'n bodoli (sy'n deillio o Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/72 ac a weithredwyd gan Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 1998, O.S. 1998/1376 fel y'i diwygiwyd) ar ymfudiad o gyfansoddion o ddeunyddiau ac eitemau plastig i fwyd, yn benodol drwy -

- (a) pennu terfynau ymfudiad cyffredinol ar gyfer RCF â chaenen blastig (paragraffau (1) & (2));
- (b) cymhwyso i RCF â chaenen blastig y terfynau ymfudiad penodedig sy'n gymwys i sylweddau penodol a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu deunyddiau ac eitemau plastig (paragraffau (3) & (4)); ac
- (c) cymhwyso'r dulliau a'r gweithdrefnau a ragnodwyd ar gyfer archwilio cydymffurfedd â therfynau ymfudiad (paragraffau (5) & (6)).

8. Mae rheoliad 10 yn cynnwys arbedion a darpariaethau trosiannol -

- (a) sy'n cadw'r amddiffyniadau sydd ar gael o dan Reoliadau 1987 ar gyfer unrhyw RCF a weithgynhyrchwyd cyn 29 Ebrill 1994 a allai fod yn parhau mewn cylchrediad;

4. Part 3 contains regulations which re-enact, without substantive amendments, the provisions of the 1987 Regulations relating to vinyl chloride (regulations 6 & 7).

5. Part 4 contains regulations that re-enact provisions of the 1987 Regulations relating to regenerated cellulose film ("RCF"), amended as necessary to implement the requirements of Commission Directive 2004/14/EC amending Directive 93/10/EC (regulations 8 & 9).

6. In particular regulation 8 of these Regulations -

- (a) controls what substances may be used in the manufacture of RCF, which may vary according to whether or not it is coated with plastics (paragraph (3));
- (b) regulates what substances may be used to manufacture plastic coatings for RCF, and under what conditions (paragraph (4));
- (c) creates a conditional derogation from paragraph (3) in respect of substances used as colourants or adhesives in the manufacture of non-plastic coated RCF (paragraph (5));
- (d) creates offences in relation to the sale, import or business use of non-compliant RCF (paragraphs (6) & (7)); and
- (e) creates a conditional requirement for RCF, when marketed prior to the retail stage, to be accompanied by a declaration of legislative compliance (paragraph (8)).

7. Regulation 9 applies to plastic coated RCF the existing controls (derived from Commission Directive 2002/72 and implemented by the Plastic Materials and Articles in Contact with Food Regulations 1998, S.I. 1998/1376 as amended) on migration of constituents of plastic materials and articles into food, in particular by -

- (a) specifying overall migration limits for plastic coated RCF (paragraphs (1) & (2));
- (b) applying to plastic coated RCF the specific migration limits applicable to certain substances used in the manufacture of plastic materials and articles (paragraphs (3) & (4)); and
- (c) applying the prescribed methods and procedures for checking compliance with migration limits (paragraphs (5) & (6)).

8. Regulation 10 contains savings and transitional provisions which -

- (a) preserve the defences available under the 1987 Regulations for any RCF manufactured before 29 April 1994 that may still be in circulation;

- (b) sy'n creu amddiffyniad o ran RCF a weithgynhyrchwyd yn y Gymuned Ewropeaidd neu a fewnforiwyd iddi cyn 29 Ionawr 2006;
- (c) sy'n darparu amddiffyniad o ran allforion.

9. Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau gweinyddol a gorfodi cyffredinol -

- (a) sy'n cosbi mynd yn groes i'r Rheoliadau hyn neu Reoliad 1935/2004 (rheoliad 11);
- (b) sy'n dynodi awdurdodau gorfodi (rheoliad 12);
- (c) sy'n darparu y caiff y llysoedd gyfarwyddo y dylid cyflwyno sylweddau i Fferyllydd y Llywodraeth er mwyn eu dadansoddi (rheoliad 13);
- (ch) sy'n cymhwyso darpariaethau penodol o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (rheoliad 14).
- (d) sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 1998 (O.S. 1998/1376, fel y'i diwygiwyd) (rheoliad 15);
- (dd) sy'n dirymu Rheoliadau 1987 a deddfwriaeth ddiwygio ddilynol (rheoliad 16).

10. Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn ac wedi'i roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â nodyn trosi sy'n nodi sut y mae prif elfennau Cyfarwyddeb y Comisiwn 2004/14/EC wedi cael eu trosi i'r gyfraith ddomestig gan y Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Southgate House, Stryd Wood, Caerdydd CF10 1EW.

- (b) create a defence in relation to RCF manufactured in or imported into the European Community before 29 January 2006;
- (c) provide for a defence in relation to exports.

9. Part 5 of these Regulations contains general administrative and enforcement provisions which -

- (a) penalise contravention of these Regulations or of Regulation 1935/2004 (regulation 11);
- (b) designate enforcement authorities (regulation 12);
- (c) provide that the courts may direct that substances should be submitted to the Government Chemist for analysis (regulation 13);
- (d) apply certain provisions of the Food Safety Act 1990 (regulation 14);
- (e) make consequential amendments to the Plastic Materials and Articles in Contact with Food Regulations 1998 (S.I. 1998/1376, as amended) (regulation 15);
- (f) revoke the 1987 Regulations and subsequent amending legislation (regulation 16).

10. A regulatory appraisal has been prepared for these Regulations and has been placed in the library of the National Assembly for Wales, together with a transposition note setting out how the main elements of Commission Directive 2004/14/EC have been transposed into domestic law by these Regulations. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW.

2005 Rhif 1647 (Cy.128)

2005 No. 1647 (W.128)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Deunyddiau ac
Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd
(Cymru) 2005

The Materials and Articles in
Contact with Food (Wales)
Regulations 2005

Wedi'u gwneud 21 Mehefin 2005

Made 21 June 2005

Yn dod i rym 24 Mehefin 2005

Coming into force 24 June 2005

TREFN Y RHEOLIADAU

ARRANGEMENT OF REGULATIONS

RHAN 1

PART 1

Rhagarweiniol

Preliminary

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli
3. Cwmpas

1. Title, application and commencement
2. Interpretation
3. Scope

RHAN 2

PART 2

Gofynion Cyffredinol ar gyfer Deunyddiau ac
Eitemau

General Requirements for Materials and Articles

4. Gorfodi Rheoliad 1935/2004
5. Awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 1935/2004

4. Enforcement of Regulation 1935/2004
5. Competent authorities for the purposes of Regulation 1935/2004

RHAN 3

PART 3

Gofynion ar gyfer Ffinyl Clorid

Requirements for Vinyl Chloride

6. Terfynau a therfynau ymfudiad
7. Dulliau Dadansoddi

6. Limits and migration limits
7. Methods of Analysis

RHAN 4

PART 4

Y Gofynion ar gyfer Ffilm Seliwlos a Adfywiwyd

Requirements for Regenerated Cellulose Film

8. Rheolaethau a therfynau
9. Terfynau ymfudiad ar gyfer ffilm seliwlos a adfywiwyd gyda chaenen o blastigau

8. Controls and limits
9. Migration limits for regenerated cellulose film coated with plastics

10. Arbed a darpariaethau trosiannol ac amddiffyniadau

RHAN 5

Cyffredinol

11. Tramgwyddau a chosbau
12. Gorfodi
13. Dadansoddi gan Fferyllydd y Llywodraeth
14. Cymhwysio amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf
15. Diwygiadau i Reoliadau 1998
16. Dirymiadau

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(2), 17(1) a (2), 26(1)(a) a (3), 31a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(2) ac wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

10. Saving and transitional provisions and defences

PART 5

General

11. Offences and penalties
12. Enforcement
13. Analysis by Government Chemist
14. Application of various provisions of the Act
15. Amendments to the 1998 Regulations
16. Revocations

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on it by sections 16(2), 17(1) and (2), 26(1)(a) and (3), 31 and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1) and now vested in it(2), having had regard, in accordance with section 48(4A) of that Act, to relevant advice given by the Food Standards Agency, and after consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3), makes the following Regulations:

(1) 1990 p. 16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990.

(2) Mae'r swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, o ran Cymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifennyddion Gwladol a oedd yn eu trefn yn ymwneud ag iechyd yn Lloegr a bwyd a iechyd yng Nghymru ac, o ran yr Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol) bellach yn arferadwy o ran Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28) ac mae paragraffau 12 a 21 o'r Atodlen honno yn diwygio yn eu trefn adrannau 17(2) a 48 o Ddeddf 1990. Diwygiwyd adran 48 hefyd gan Reoliadau Deddf Diogelwch Bwyd (Diwygio) 2004 (O.S. 2004/2990). Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999 a throsglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran yr Alban, i Weinidogion yr Alban gan adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 (1998 p. 46) fel y'i darllenir gydag adran 40(2) o Ddeddf 1999.

(3) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).

(1) 1990 c. 16. Section 1(1) and (2) (definition of "food") was substituted by S.I. 2004/2990.

(2) Functions formerly exercisable by "the Ministers" (being, in relation to England and Wales and acting jointly, the Minister of Agriculture, Fisheries and Food and the Secretaries of State respectively concerned with health in England and food and health in Wales and, in relation to Scotland, the Secretary of State) are now exercisable in relation to England by the Secretary of State pursuant to paragraph 8 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (1999 c.28) and paragraphs 12 and 21 of that Schedule amend respectively sections 17(2) and 48 of the 1990 Act. Section 48 was also amended by the Food Safety Act (Amendment) Regulations 2004 (S.I. 2004/2990). Functions of "the Ministers" so far as exercisable in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the 1999 Act and those functions so far as exercisable in relation to Scotland were transferred to the Scottish Ministers by section 53 of the Scotland Act 1998 (1998 c.46) as read with section 40(2) of the 1999 Act.

(3) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Regulation (EC) No. 1642/2003 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L245, 29.9.2003, p.4).

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 24 Mehefin 2005.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "Cyfarwyddeb 93/10/EEC" ("*Directive 93/10/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 93/10/EEC sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau wedi'u gwneud o ffilm seliwlos a adfywiwyd y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(1);

ystyr "y Ddeddf ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "ffilm seliwlos a adfywiwyd" ("*regenerated cellulose film*") yw deunydd haenen denau a gafwyd o seliwlos a goethwyd sy'n deillio o bren neu gotwm nas ailgylchwyd, gydag ychwanegiad o sylweddau addas neu beidio, naill ai yn y mäs neu ar un arwyneb neu'r ddau arwyneb, ond nad yw'n cynnwys casinau synthetig o seliwlos a adfywiwyd;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys cynnig neu ddangos rhywbeth i'w werthu ac mae'n cynnwys cael rhywbeth yn eich meddiant i'w werthu, a rhaid deall "sale" a "sold" yn unol â hynny;

ystyr "mewnforio" ("*import*") yw mewnforio wrth gynnal busnes o le heblaw o Aelod-wladwriaeth;

mae "paratoi" ("*preparation*") o ran bwyd yn cynnwys gweithgynhyrchu ac unrhyw fath o brosesu neu drin;

ystyr "plastigau" ("*plastics*") yw'r deunyddiau a'r eitemau hynny y mae Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/72/EC sy'n ymwneud â deunyddiau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd yn gymwys iddynt(2);

ystyr "Rheoliad 1935/2004" ("*Regulation 1935/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1935/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac sy'n diddymu Cyfarwyddebau 80/590/EEC a 89/109/EEC(3); ac

-
- (1) OJ Rhif L93, 17.4.93, t.27, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/14/EC (OJ Rhif L27, 30.1.2004, t.48).
- (2) OJ Rhif L220, 15.8.2002, t.18, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/19/EC (OJ Rhif L71, 10.3.2004, t.8).
- (3) OJ Rhif L338, 13.11.2004, t.4.

PART 1

Preliminary

Title, application and commencement

1. The title of these Regulations is the Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2005, they apply in relation to Wales and come into force on 24 June 2005.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"Directive 93/10/EEC" ("*Cyfarwyddeb 93/10/EEC*") means Commission Directive 93/10/EEC relating to materials and articles made of regenerated cellulose film intended to come into contact with food(1);

"import" ("*mewnforio*") means import in the course of a business from a place other than a Member State;

"plastics" ("*plastigau*") means those materials and articles to which Commission Directive 2002/72/EC relating to plastic materials intended to come into contact with foodstuffs applies(2);

"preparation" ("*paratoi*") in relation to food includes manufacture and any form of treatment or process;

"regenerated cellulose film" ("*ffilm seliwlos a adfywiwyd*") means a thin sheet material obtained from refined cellulose derived from unrecycled wood or cotton, with or without the addition of suitable substances, either in the mass or on one or both surfaces, but does not include synthetic casings of regenerated cellulose;

"the 1998 Regulations" ("*Rheoliadau 1998*") means the Plastic Materials and Articles in Contact with Food Regulations 1998(3);

"Regulation 1935/2004" ("*Rheoliad 1935/2004*") means Regulation (EC) No. 1935/2004 of the European Parliament and of the Council on materials and articles intended to come into contact with food and repealing Directives 80/590/EEC and 89/109/EEC(4); and

-
- (1) OJ No. L93, 17.4.93, p.27, as last amended by Commission Directive 2004/14/EC (OJ No. L27, 30.1.2004, p.48).
- (2) OJ No. L220, 15.8.2002, p.18, as last amended by Commission Directive 2004/19/EC (OJ No. L71, 10.3.2004, p.8).
- (3) S.I. 1998/1376, as amended in relation to Wales by S.I. 2000/3162, S.I. 2002/2364, S.I. 2004/3113 and S.I. 2005/325.
- (4) OJ No. L338, 13.11.2004, p.4.

ystyr "Rheoliadau 1998" ("*the 1998 Regulations*") yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 1998(1);

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliad 1935/2004.

(3) Mae i ymadroddion Saesneg eraill a'r ymadroddion Cymraeg cyfatebol a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 1935/2004 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Rheoliad hwnnw.

Cwmpas

3. Nid yw darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r deunyddiau ac eitemau hynny a bennir yn is-baragraffau (a), (b) ac (c) o Erthygl 1(3).

"sell" ("*gwerthu*") includes offer or expose for sale or have in possession for sale, and "sale" and "sold" shall be construed accordingly.

(2) Any reference in these Regulations to a numbered Article is a reference to the Article bearing that number in Regulation 1935/2004.

(3) Expressions used in these Regulations and in Regulation 1935/2004 have the same meaning in these Regulations as in that Regulation.

Scope

3. The provisions of these Regulations do not apply to those materials and articles specified in subparagraphs (a), (b) and (c) of Article 1(3).

RHAN 2

Gofynion Cyffredinol ar gyfer Deunyddiau ac Eitemau

Gorfodi Rheoliad 1935/2004

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 27 (trefniadau trosiannol), bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Rheoliad 1935/2004 yn euog o dramgwydd -

- (a) Erthygl 3 (gofynion cyffredinol);
- (b) Erthygl 4 (gofynion penodedig ar gyfer deunyddiau ac eitemau adweithiol a deallus);
- (c) Erthygl 11(4) a (5) (darpariaethau sy'n ymwneud ag awdurdodiad y Gymuned);
- (ch) Erthygl 15(1), (2), (3), (4), (7) ac (8) (labelu);
- (d) Erthygl 16(1) (datganiad o gydymffurfio);
- (dd) ar neu ar ôl 27 Hydref 2006, Erthygl 17(2) (gallu olrhain).

Awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 1935/2004

5. Dynodir y cyrff canlynol fel awdurdodau cymwys at ddibenion darpariaethau Rheoliad 1935/2004 fel a bennir isod -

- (a) o ran Eitemau 9 a 13, yr Asiantaeth;
- (b) o ran Eitemau 16(1) a 17(2), yr Asiantaeth a'r awdurdod sy'n gyfrifol am orfodi yn unol â rheoliad 12(1).

PART 2

General Requirements for Materials and Articles

Enforcement of Regulation 1935/2004

4. Subject to the provisions of Article 27 (transitional arrangements), any person who contravenes any of the following provisions of Regulation 1935/2004 is guilty of an offence -

- (a) Article 3 (general requirements);
- (b) Article 4 (special requirements for active and intelligent materials and articles);
- (c) Article 11(4) and (5) (provisions relating to Community authorisation);
- (d) Article 15(1), (2), (3), (4), (7) and (8) (labelling);
- (e) Article 16(1) (declaration of compliance);
- (f) on or after 27 October 2006, Article 17(2) (traceability).

Competent authorities for the purposes of Regulation 1935/2004

5. The following bodies are designated as the competent authorities for the purposes of the provisions of Regulation 1935/2004 as specified below -

- (a) in respect of Articles 9 and 13, the Agency;
- (b) in respect of Articles 16(1) and 17(2), the Agency and the authority having responsibility for enforcement pursuant to regulation 12(1).

(1) O.S. 1998/1376, fel y'i diwygiwyd o ran Cymru gan O.S. 2000/3162, O.S. 2002/2364, O.S. 2004/3113 ac O.S. 2005/325.

RHAN 3

Y gofynion ar gyfer Fynyl Clorid

Terfynau a therfynau ymfudiad

6.-(1) O ran deunyddiau ac eitemau a weithgynhyrchir gan bolymerau finyl clorid neu gopolymerau -

- (a) rhaid iddynt beidio â chynnwys monomer finyl clorid mewn mesur sy'n fwy nag 1 miligram y cilogram o'r deunydd neu eitem fel y'i mesurir drwy'r dull dadansoddi a bennir yn rheoliad 7(1); a
- (b) rhaid iddynt gael eu gweithgynhyrchu yn y fath fodd nad ydynt yn trosglwyddo i fwydydd y maent mewn cysylltiad â hwy unrhyw fesur o finyl clorid sy'n fwy na 0.01 miligram o finyl clorid y cilogram o fwyd fel y'i mesurir drwy'r dull dadansoddi a bennir yn rheoliad 7(2).

(2) Ni chaiff neb -

- (a) gwerthu;
- (b) mewnforio; neu
- (c) defnyddio wrth gynnal busnes mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, gwerthu neu weini bwyd,

unrhyw ddeunydd neu eitem o'r fath nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

Dulliau Dadansoddi

7.-(1) Y dull i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi unrhyw sampl at ddibenion sefydlu mesur y monomer finyl clorid sy'n bresennol yn y deunydd neu'r eitem er mwyn penderfynu a yw'n cydymffurfio â rheoliad 6(1)(a) fydd y dull a bennir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn Rhif 80/766/EEC (sy'n gosod dull dadansoddi'r Gymuned ar gyfer rheolaeth swyddogol lefel monomer finyl clorid mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd)(1).

(2) Y dull i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi unrhyw fwyd at ddibenion sefydlu mesur y finyl clorid sy'n bresennol yn y bwyd er mwyn penderfynu a yw deunydd neu eitem sydd neu a fu mewn cysylltiad â'r bwyd yn cydymffurfio â rheoliad 6(1)(b) fydd y dull a bennir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn Rhif 81/432/EEC (sy'n gosod dull dadansoddi'r Gymuned ar gyfer rheolaeth swyddogol finyl clorid a ryddhawyd gan ddeunydd ac eitemau i fwydydd)(2).

(1) OJ Rhif L213, 16.8.90, t.42.

(2) OJ Rhif L167, 24.6.81, t.6.

PART 3

Requirements for Vinyl Chloride

Limits and migration limits

6.-(1) Materials and articles which are manufactured with vinyl chloride polymers or copolymers -

- (a) must not contain vinyl chloride monomer in a quantity exceeding 1 milligram per kilogram of the material or article as measured by the method of analysis specified in regulation 7(1); and
- (b) must be manufactured in such a way that they do not transfer to foods with which they are in contact any quantity of vinyl chloride exceeding 0.01 milligrams of vinyl chloride per kilogram of food as measured by the method of analysis specified in regulation 7(2).

(2) No person may -

- (a) sell;
- (b) import; or
- (c) use in the course of a business in connection with the storage, preparation, packaging, selling or serving of food,

any such material or article that does not comply with this regulation.

Methods of Analysis

7.-(1) The method used in analysing any sample for the purpose of establishing the quantity of vinyl chloride monomer present in the material or article in order to determine whether it complies with regulation 6(1)(a) shall be the method specified in the Annex to Commission Directive No. 80/766/EEC (which lays down the Community method of analysis for the official control of the vinyl chloride monomer level in materials and articles which are intended to come into contact with foodstuffs)(1).

(2) The method used in analysing any food for the purpose of establishing the quantity of vinyl chloride present in the food in order to determine whether a material or article which is or has been in contact with the food complies with regulation 6(1)(b) shall be the method specified in the Annex to Commission Directive No. 81/432/EEC (which lays down the Community method of analysis for the official control of vinyl chloride released by material and articles into foodstuffs)(2).

(1) OJ No. L213, 16.8.90, p.42.

(2) OJ No. L167, 24.6.81, p.6.

RHAN 4

Y Gofynion ar gyfer Ffilm Seliwlos a Adfywiwyd

Rheolaethau a therfynau

8.-(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i ffilm seliwlos a adfywiwyd -

- (a) sydd ynddo'i hun yn ffurfio cynnyrch gorffenedig; neu
- (b) sy'n rhan o gynnyrch gorffenedig sy'n cynnwys deunyddiau eraill,

ac y bwriedir iddi ddod i gysylltiad â bwyd, neu wrth ei defnyddio i'r diben hwnnw ei bod yn dod i gysylltiad â bwyd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y rheoliad hwn at Atodiad II yn gyfeiriad at Atodiad II i Gyfarwyddeb 93/10/EEC.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), ni chaiff unrhyw berson weithgynhyrchu unrhyw ffilm seliwlos a adfywiwyd y bwriedir iddi ddod i gysylltiad â bwyd sy'n defnyddio unrhyw sylwedd neu grwp o sylweddau heblaw'r sylweddau a enwir neu a ddisgrifir -

- (a) yng ngholofn gyntaf (enwau) Atodiad II yn yr achos -
 - (i) ffilm heb gaenen; neu
 - (ii) ffilm â chaenen os yw'r gaenen yn deillio o seliwlos;
- (b) yng ngholofn gyntaf Rhan Gyntaf Atodiad II yn achos ffilm sydd i gael caenen, os ffurfir y gaenen o blastigau;

onid yw'n unol â'r amodau a'r cyfyngiadau a bennir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn o'r Rhan briodol o Atodiad II, fel y'i darllenir gyda'r rhaglith i'r Atodiad hwnnw.

(4) Ni chaiff neb weithgynhyrchu unrhyw gaenen sydd i'w rhoi ar ffilm y cyfeirir ati ym mharagraff (3)(b) sy'n defnyddio unrhyw sylwedd neu grwp o sylweddau heblaw'r sylweddau a restrir yn Atodlen 1, 2 neu 2A i Reoliadau 1998 onid yw'n unol â'r gofynion, cyfyngiadau a manylebau priodol a geir yn y Rheoliadau hynny ac yn yr Atodlenni iddynt.

(5) Caniateir defnyddio sylweddau heblaw'r rhai a restrir yn Atodiad II fel lliwyddion neu ludyddion wrth weithgynhyrchu ffilm y mae paragraff (3)(a) yn gymwys iddi, ar yr amod y gweithgynhyrchir y ffilm honno yn y fath fodd nad yw'n trosglwyddo unrhyw liwydd neu ludydd i fwyd mewn unrhyw fesur y gellir ei ganfod.

- (6) Yn ddarostyngedig i reoliad 10 ni chaiff neb -
 - (a) gwerthu;
 - (b) mewnfario; neu

PART 4

Requirements for Regenerated Cellulose Film

Controls and limits

8.-(1) This Part applies to regenerated cellulose film which -

- (a) constitutes a finished product in itself; or
- (b) is part of a finished product containing other materials,

and is intended to come into contact with food, or by being used for that purpose does come into contact with food.

(2) Any reference in this regulation to Annex II is a reference to Annex II to Directive 93/10/EEC.

